**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Awst 2025**

Ym mis Gorffennaf 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (“y Pwyllgor”) ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (“y Memorandwm") ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd ("y Bil").

Roedd yr adroddiad yn cytuno â'n hasesiad ac nid oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru.

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 7 Mai 2025.

Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y Bil yw:

a) Darparu pwerau newydd i farnwyr gosbi troseddwyr sy'n gwrthod bod yn bresennol i gael eu dedfrydu, gan gynnwys ystod o gosbau carchar yn ogystal â blynyddoedd ychwanegol ar eu dedfryd.

b) Cyfyngu cyfrifoldeb rhieni yn awtomatig ar gyfer troseddwyr sy'n cael eu dedfrydu am drosedd cam-drin rhywiol difrifol yn erbyn eu plentyn eu hunain.

c) Cryfhau pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr i sicrhau bod mwy o graffu ar y systemau sy'n cefnogi dioddefwyr.

d) Rhoi sicrwydd i ddioddefwyr am y llwybrau sydd ar gael i dderbyn gwybodaeth ynghylch rhyddhau eu troseddwr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion pwysig hyn a gosodais y Memorandwm i'r perwyl hwn ar 20 Mai 2025.

**Yr ymateb i'r adroddiad**

Mae'n dda gweld bod y Pwyllgor yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arni yn unol â Rheol Sefydlog 29.

Diolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hasesiad o Femorandwm Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn.